Margam Park Visitors Guide Outside WELSH 2021 v2:Layout 1 13/07/2021 10:42 am Page 2



# Archwilio …

## Trên Parc Margam
Ewch am dro hamddenol ar ein rheilffordd gul. Bydd y llwybr yn mynd â chi drwy'r dirwedd hanesyddol ysblennydd gyda golygfeydd o lwybr y fferm, y castell, y llynnoedd, y coetiroedd a'r bywyd gwyllt. Mae'r cyfleuster hwn yn gweithredu yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf.

Mae'r trên yn gweithredu'n dymhorol, gwiriwch yr amserau cyn i chi ymweld.

## Pysgota
Mae Llyn Furzemill yn llecyn llonydd i fwynhau pysgota bras. Mae amrywiaeth o bysgod yn y llyn gan gynnwys cerpynnod ac ysgrytennod mawr. Mae trwyddedau dyddiol a blynyddol ar gael o gaban y fynedfa yn ystod oriau agor; bydd angen trwydded wialen.

## Ardal Farbeciw
Mae ardal farbeciw dan do ar gael i'w llogi ar gyfer partïon preifat. Mae'n ddelfrydol i deuluoedd, ffrindiau a grwpiau wedi'u trefnu. I holi a yw ar gael, ffoniwch swyddfa'r parc ar 01639 881635

## Llwybr Dirgryniadau'r Coetir
Gall ymwelwyr ddod o hyd i harmoni mewn natur gyda llwybr cerddorol drwy'r coetir. Crëwyd y llwybr gyda chymorth plant ysgol lleol ac mae'n ymlwybro heibio cyfres o offerynnau cerdd anferth gan arwain at lwybr y fferm.

**Cymorth Cyntaf a Phlant sydd Ar Goll**
I gael cymorth yn ystod oriau agor, siaradwch â'r aelod staff agosaf neu galwch heibio caban y fynedfa.

**Parcio i'r anabl**
Mae lleoedd parcio i ddeiliaid bathodynnau i'r anabl ar gael ym maes parcio'r Orendy a ger y Castell.


**Cymorth Symudedd**
Mae gennym gadeiriau olwyn a bygis trydanol Tramper i helpu ymwelwyr i archwilio'r parc. Cysylltwch â'r swyddfa am argaeledd.

# Croeso i …
# Barc Gwledig Margam

*Mae Parc Gwledig Margam, sy'n cynnwys 1,000 o erwau o barcdir godidog, yn cynnig harddwch, hanes, bywyd gwyllt ac amrywiaeth eang o atyniadau i'r teulu!*









# Ymunwch â ni …
## fel gwirfoddolwr!
A oes gennych ychydig oriau'n rhydd bob wythnos? Ydych chi'n ystyried ymuno â thîm cyfeillgar ac eisiau ehangu'ch gwybodaeth? Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr newydd i weithio yng nghanol yr ardal hanesyddol. Mae cyfleoedd ar gael yn y Tîm Garddio yma ym Mharc Gwledig Margam. Mae amrywiaeth o wahanol brosiectau ar waith, mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.margamcountrypark.com neu ffoniwch ein Prif Arddwr, Jeanette Dunk ar 01639 881635 am sgwrs anffurfiol.

Rhowch gynnig arni! Gwella'ch gwybodaeth wrth gael hwyl yn yr awyr agored.

## Aelodaeth o'r parc
Mwynhewch y parc yn ystod pob tymor gyda'n Haelodaeth o'r Parc. Mae hyn yn cynnwys parcio, gostyngiad ar gyfleusterau gan gynnwys y caffi a'r siop anrhegion a gostyngiad ar gyfer y Diwrnodau Mynediad Arbennig i'r Parc. Mae rhagor o ostyngiadau ar gael i breswylwyr Castell-nedd Port Talbot. Yn ddilys am un flwyddyn o'r dyddiad prynu.

**Sganiwch ein côd QR gyda'ch ffôn clyfar i weld pa ddigwyddiadau sydd ar ddod…**

MARGAM PARK ADVENTURE
OUTDOOR ACTIVITIES + CYCLE HIRE







**Wedi'i leoli ym Meili'r Castell, mae gennym rywbeth i bawb ac antur y byddwch yn ei chofio am byth!**

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys:
- Beicio Mynydd
- Canŵio a Chaiacio
- Padlo bwrdd ar eich traed
- Saethyddiaeth
- Cyfeiriannu
- Adeiladu rafftiau
- Llogi Go-gerti a Beiciau
- Cychod Pedalo

**DECHREUWCH EICH ANTUR YN AWR!**
Gallwch ddod o hyd i ni ar Facebook ac yn **www.margamparkadventure.co.uk**
E-bost: **info@margamparkadventure.co.uk**
Rhif ffôn: **07825 446846**



## Go Ape yw Profiad antur y goedwig mwyaf poblogaidd y DU
Gallwch hedfan i lawr gwifrau sip a neidio oddi ar siglenni Tarzan wrth fwynhau golygfeydd gwefreiddiol. Am ragor o wybodaeth neu i gadw lle ffoniwch **0845 0948752** neu ewch i **goape.co.uk/margam**

## Teithiau Cerdded
O deithiau hamdden i'r teulu i deithiau heriol sy'n archwilio'r cefn gwlad cyfagos. Mae pecynnau cerdded ar werth o'r caban wrth fynedfa'r parc a'r siop anrhegion. Os yw'n well gennych ddilyn llwybr hunanarweinedig, mae gennym 4 llwybr â chyfeirbyst i chi eu dilyn - ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth.

## Mynd â chŵn am dro
Mae croeso i gŵn ond rhaid eu rheoli a'u cadw ar dennyn ar bob adeg ym mharc y ceirw, yn y gerddi ac ar Lwybr y Fferm. Ni chaniateir mynediad i gŵn i rai o gyfleusterau'r parc. Mae bagiau baw ar gael am ddim o'r caban wrth fynedfa'r parc a'r siop anrhegion. Defnyddiwch ein peiriant golchi cŵn i lanhau eich cŵn brwnt cyn mynd adref.

## Beicio Mynydd
Gallwch archwilio'r parc gyda'r teulu cyfan. Mae ein hamrywiaeth o lwybrau beicio mynydd yn addas i bob oed a gallu. Mae'r llwybrau'n dilyn system côd lliw ac maent wedi'u teilwra i fod yn addas ar gyfer teuluoedd a beicwyr canolradd, lefel uwch ac arbenigol. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan.

## Cyfeiriannu
Dewch i archwilio'r saith llwybr yn y parc sy'n addas i bob gallu. Mae pecynnau cyfeiriannu ar werth o'r caban wrth fynedfa'r parc a'r siop anrhegion.

## Geogelcio
Mae'r gêm hon o guddio a hela trysor yn adnabyddus ledled y byd ac mae nifer o gelciau i'w darganfod yn y parc. Mewngofnodwch i **geocaching.com** am ragor o fanylion.